www.gdc-uk.org

mynd dramor am eich gofal deintyddol?

yr hyn sydd angen i chi ei wybod cyn mynd

CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL

GDC | diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol

www.gdc-uk.co.uk

Cyn i chi drefnu teithio dramor am driniaeth ddeintyddol, mae'n bwysig eich bod yn hollol ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl a'r risgiau cysylltiedig. Efallai eich bod yn gwybod sut i fynegi pryderon am eich triniaeth ddeintyddol yn y DU, ond a ydych chi'n gyfarwydd â'r broses mewn gwlad dramor?



Fel corff rheoleiddio deintyddol y DU, mae'n rhaid i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol gofrestru gyda ni er mwyn cael gweithio yn y DU. Ni sy'n pennu'r safonau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw. Ni allwn roi sicrwydd bod sefydliad arall fel ni yn bodoli mewn gwledydd eraill, nac y bydd y safonau'r un fath â'r rhai yma yn y DU. Rydym yn argymell y dylech ymchwilio cymaint â phosibl ac yn canfod y ffeithiau cyn mynd er mwyn sicrhau bod eich triniaeth dramor yn bodloni'ch disgwyliadau.

Gwirio gwaith rheoleiddio

Mae'n debyg y bydd gwaith rheoleiddio deintyddol yn amrywio o wlad i wlad, felly mae'n syniad da ymchwilio rhywfaint i leoliad eich triniaeth. A oes gan y wlad honno gorff rheoleiddio proffesiynol? A yw gweithwyr deintyddol proffesiynol yn gorfod cofrestru â'r corff? Am ragor o wybodaeth am gyrff rheoleiddio iechyd a chyrff proffesiynol mewn gwledydd eraill, ewch i www.healthregulation.org

Os oes corff rheoleiddio yn y wlad, gallwch edrych ar ei wefan i weld y safonau y maent yn eu gorfodi, pa gymwysterau y mae'n rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol eu cael a chyda phwy y dylech gysylltu os ydych chi am gwyno am eich triniaeth.

Ymgynghoriad Cychwynnol

Bydd gan rai clinigau tramor ganolfan yn y DU sy'n cynnig ymgynghoriadau cychwynnol yn y wlad hon cyn i chi deithio dramor ar gyfer eich triniaeth. Efallai y bydd eraill yn cynnig ymgynghoriadau am ddim os ydych chi'n fodlon teithio. Dyma'ch cyfle i ofyn cynifer o gwestiynau â phosibl er mwyn i chi deimlo'n ddiogel a hyderus gyda'ch penderfyniad.

Ym mhob achos, dylech gael eich asesu gan ddeintydd cymwysedig cyn derbyn cynllun triniaeth ac amcangyfrif o'r gost. Os yw'ch ymgynghoriad yn y DU, cofiwch ofyn a yw'r deintydd wedi cofrestru gyda ni (y Cyngor Deintyddol Cenedlaethol). Os nad ydynt, maent yn gweithio'n anghyfreithlon ac ni ddylent fod yn ymarfer yn y DU.

Gallwch gadarnhau a yw deintydd wedi'i gofrestru gyda ni drwy edrych ar ein gwefan, www.gdc-uk.org, a chwilio'r gofrestr ar-lein neu ein ffonio ar 0845 222 4141.

Fel rhan o'ch ymgynghoriad cychwynnol, dylai'r deintydd sy'n cynnal yr asesiad ofyn i chi am eich hanes meddygol llawn. Dylai hefyd eich holi am eich iechyd cyffredinol,

a ydych chi wedi dioddef o unrhyw salwch difrifol yn y gorffennol, a ydych chi'n dioddef o gyflwr meddygol cronig, a ydych chi'n ysmygu, ac a ydych chi wedi cael llawdriniaeth neu anaesthetig cyffredinol yn y gorffennol.

Ymgynghorwch â'ch deintydd eich hun

Mae'n syniad da siarad â'ch deintydd eich hun cyn ystyried teithio dramor ar gyfer eich triniaeth oherwydd mae'n bosibl y bydd yn gallu cynnig cyngor i chi ar sail eich hanes deintyddol. Bydd eich deintydd hefyd angen gwybod am eich cynlluniau rhag ofn y bydd cymhlethdodau yn y dyfodol.

Cwestiynau i'w gofyn

Peidiwch â bod ofn gofyn llawer o gwestiynau, hyd yn oed os ydynt yn ymddangos yn swta neu'n amlwg. Os nad ydych chi'n fodlon â'r atebion a roddir i chi, peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi ymrwymo i unrhyw beth y diwrnod hwnnw. Ewch adref ac ymchwiliwch ymhellach tan eich bod yn teimlo'n hyderus bod eich holl gwestiynau wedi'u hateb. Efallai y byddwch hefyd am siarad â chleifion eraill sydd wedi teithio dramor am driniaeth ddeintyddol drwy ymweld â grwpiau a fforymau ar-lein.

Ambell i gwestiwn y gallech eu gofyn:

- Pwy fydd yn cyflawni'r driniaeth a pha gymwysterau sydd ganddynt?
- A fydd y tîm deintyddol yn siarad Saesneg? Os nad ydynt, a fyddwch yn darparu cyfieithydd ar ddiwrnod y driniaeth?
- A oes gennych chi unrhyw eirdaon neu dystebau gan gleifion blaenorol?
- Sawl gwaith ydych chi wedi cyflawni'r driniaeth y byddaf yn ei chael? Beth yw'r cyfraddau llwyddiant, cymhlethdodau, aildderbyniadau a heintiau?
- A ydych chi'n cael eich rheoleiddio gan gorff proffesiynol ac oes rhaid i chi gofrestru gyda nhw?
- A yw'r gwaith yn cael ei warantu am gyfnod penodol?
- Pa ôl-ofal ydych chi'n ei gynnig?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn fodlon â'r canlyniadau? Pwy fydd yn talu am y teithiau awyren ychwanegol, y gwesty a gwaith adfer?
- A yw unrhyw driniaeth bellach i ddatrys unrhyw gymhlethdodau wedi'i chynnwys yn y gost wreiddiol?
- A oes gennych yswiriant ar gyfer y driniaeth hon?
- A oes gennych chi system gwyno ar waith? A gaf i weld copi ohoni?
- Gyda phwy y gallaf gysylltu am gyngor ar ôl y driniaeth?

Os yw'r deintydd yn honni ei fod yn arbenigwr, mae hefyd yn bwysig gofyn a yw'n gallu profi hynny. Yn y DU, mae gennym restr o ddeintyddion sydd â'r hawl i ddefnyddio'r term 'arbenigwr'. Mae'n rhaid i'r deintydd fodloni safonau hyfforddiant gofynnol penodol cyn cael ei gynnwys ar y rhestri hyn. Efallai y byddwch am gael gwybod a allwch ddisgwyl yr un safonau hyfforddiant gan y deintydd a fydd yn cyflawni eich triniaeth dramor.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gyaith. Rydym eisiau sicrhau bod ein holl gynhyrchion a gwasanaethau ar gael i bawb.

Os hoffech gael copi o'r daflen hon mewn fformat gwahanol (er enghraifft, print bras neu sain), cysylltwch â ni.

Ffôn: 0845 222 4141
E-bost: communications@gdc-uk.org

CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL
37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ
Ffôn: 0845 222 4141 Ffacs: 020 7224 3294
Minicom: 18001 0845 222 4141 (trwy TypeTalk)
E-bost: information@gdc-uk.org

www.gdc-uk.org

GDC | diogelu cleifion,
rheoleiddio'r tîm deintyddol